

# Tasgau Cyfoethog

<b>Ardal: Parc</b>	<b>Grŵp Blwyddyn y CC:</b> Blynyddoedd 1 a 2
<b>Amcan Dysgu: Archwilio odrifau ac eilrifau</b>	
<b>Maes Dysgu: Datblygiad Mathemategol</b> <b>Rhaglen Astudio</b> <u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u> Adnabod prosesau a chysylltiadau <ul style="list-style-type: none"><li>• Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth</li><li>• Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiaid</li><li>• Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio</li><li>• Dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol.</li></ul> Cynrychioli a chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain</li><li>• Cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd</li><li>• Dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn dilyniannau rhif.</li></ul> Adolygu <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol</li><li>• Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol</li></ul> Defnyddio Sgiliau Rhif <ul style="list-style-type: none"><li>• Adnabod a deall odrifau ac eilrifau hyd at 20. (B1)</li><li>• Adnabod a deall odrifau ac eilrifau hyd at 100. (B2)</li></ul>	
<b>Pennawd (Addas i Blant)</b> Helpwch Guto Gwiwer i gasglu digon o gnau i bara drwy gydol y gaeaf. Mae Guto Gwiwer wedi drysu "Os byddaf i'n adio odrif ac odrif, rydw i'n cael odrif, ac os ydw i'n adio eilrif at eilrif rwy'n cael odrif." A yw e'n gywir neu'n anghywir?	
<b>Meini Prawf Llwyddiant:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adnabod odrifau ac eilrifau yn llwyddiannus</li><li>• Gallu adio dau odrif/eilrif</li><li>• Gallu cyfrifo a yw'r cyfanswm yn odrif neu'n eilrif</li><li>• Gallu esbonio sut y mae wedi profi'r rhagdybiaeth</li><li>• Gallu penderfynu a yw rheol Guto Gwiwer yn gywir neu beidio.</li></ul> <b>Beth i'w wneud:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cysylltwch â'r dysgu blaenorol ar odrifau ac eilrifau a rhoi enghreifftiau i'r plant er mwyn ymarfer.</li></ul>	

- Gwnewch gynllun dosbarth cyfan o'r hyn rydych chi'n mynd i'w wneud i weld a yw Guto Gwiwer yn gywir
- Penderfynwch ba adnoddau awyr agored fydd angen i chi eu casglu i'ch helpu (pethau y byddai gwiwer yn hoff o'u bwyta, yn ddelfrydol, fel cnau cyll/mes/cnau ffawydd, neu defnyddiwch gerrig mân os nad oes cnau ar gael).
- Dylai pob pâr gasglu llond llaw o'r uchod
- Mewn parau, dylent brofi beth sy'n digwydd pan fyddwch yn adio odrifau ac eilrifau
- Cofnodwch eich canfyddiadau wrth i chi fynd yn eich blaen (B2)
- Dylai'r parau esbonio'u canfyddiadau, a sut maen nhw'n darganfod eu canfyddiadau.
- Mae angen i'r dosbarth cyfan benderfynu a oes angen rheol newydd arnoch i'w dweud wrth Guto Gwiwer.

#### Adnoddau:

- Adnoddau naturiol perthnasol.
- Clipfwrdd/byrddau gwyn ac offer ysgrifennu i gofnodi canfyddiadau.

